

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 23 Medi 2014**

Amser: **09.00 – 10.18**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

<http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/a663a457-008a-4450-9658-7fa74b1badd7?autostart=True>

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

Aelodau'r Cynulliad:

William Powell (Cadeirydd)
Russell George
Joyce Watson
Rhodri Glyn Thomas (yn lle Bethan Jenkins)

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

Steve George (Clerc)
Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)
Kath Thomas (Dirprwy Glerc)
Helen Roberts (Cyngorydd Cyfreithiol)

TRAWSGRIFIAD

View the [meeting transcript](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC, ac roedd Rhodri Glyn Thomas AC yn dirprwyo ar ei rhan.

2 Deisebau newydd

2.1 P-04-579 Adfer cyllid ar gyfer monitro Gwylogod Ynys Sgomer

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.2 P-04-580 Cyfyngiadau ar Roi Gwaed

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb; a
- gofyn am bapur briffio ymchwil ffeithiol byr ar y mater y tu ôl i'r ddeiseb.

2.3 P-04-581 Gwrthwynebu'r toriadau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Addysg a Sgiliau; a
- Chyngor Sir Abertawe

i geisio eu barn am y ddeiseb.

2.4 P-04-582 Newid Mawr ei Angen i'r Rheolau yn ein Hysgolion o ran Llau Pen a Nedd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

2.5 P-04-583 Gwahardd Tyfu a Gwerthu unrhyw Hadau / Bwydydd a Phorthiant Anifeiliaid / Pysgod GM yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.6P-04-584 Bil Cynllunio Cymru i Ddiogelu Meysydd Tref a Phentref yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.7P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494/A470 yn Nolgellau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb ac am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran diogelwch ffyrdd ar ôl cyfnod yr haf.

2.8P-04-586 Holl staff GIG Cymru i gael eu talu ar y gyfradd Cyflog Byw o £7.65 yr awr o leiaf

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.9P-04-587 Tîm Cymorth pwrpasol ar gyfer dioddefwyr Enseffalomyelitis Myalgig (ME), Syndrom Blinder Cronig a Ffibromyalgia yn ne-ddwyrain Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.10 P-04-588 Siarter ar gyfer Plant a Tadau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.11 P-04-589 Lleihau Nifer y Cynghorwyr ac Aelodau Gweithredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.12 P-04-590 Cyllid ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; a
- Chyngor Sir Ceredigion

i geisio eu barn am y ddeiseb.

2.13 P-04-591 Cyllid Teg ar gyfer Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.14 P-04-592 Pleidleisiau gan Ddinasyddion sy'n Rhwymol yn Ddemocrataidd ar Lefel Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.15 P-04-593 Rhoi cyngor i ysgolion ar ymweliadau â Noah's Ark Zoo Farm

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn am y ddeiseb a'r gohebiaeth a gafwyd gan Noah's Ark Zoo Farm a'r deisebydd.

2.16 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

2.17 P-04-595 Llwybr Foresight

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.18 P-04-596 Achub Gorsaf Dân y Porth – MAE'R EILIADAU'N CYFRIF!

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

2.19 P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi;
- y Llywydd, yn ei rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad;

- Comisiynydd Plant Cymru, a
- Plant yng Nghymru

i geisio eu barn am y ddeiseb.

2.20 P-04-598 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ofyn ei farn am sylwadau pellach y ddeiseb.

2.21 P-04-599 Effaith Ardrethi Domestig ar Lety Hunan Arlwyo

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-04-549 Gwnewch ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ yn anthem genedlaethol swyddogol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Prif Weinidog; a
- gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.

3.2 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drennewydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb a gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf;
- aros am unrhyw sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd.

3.3 P-04-555 Rhwystwrch y cynlluniau anfoesol a llym arfaethedig i'w gwneud yn orfodol i ficrosglodynau cŵn.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn gofyn am eu barn am y ddeiseb; ac

- anfon copi o ddatganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd dyddiedig 22 Medi, ar y pwnc ‘Lles Anifeiliaid – Cŵn’ at y deisebydd, er gwyboaeth.

3.4P-04-556 Na i gau Cyffordd 41

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd.

3.5P-04-565 Adfywio hen reilffyrdd segur at ddibenion hamdden.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd.

3.6P-04-574 Gwasanaethau Bws ym Mhorth Tywyn

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am ei farn ar yr ohebiaeth.

3.7P-04-539 Achub y Gyfnewidfa Lo

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Geisio cael cadarnhad o statws perchnogaeth yr adeilad;
- aros am sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd; a
- pharhau â'r bwriad i ymweld â'r adeilad.

3.8P-04-440 Dywedwch ‘Na’ i werthu asedau Ysbyty Bronllys

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o'i bersbectif a gofyn am ei farn ar lythyr y deisebydd a'r cynigion gan y grŵp gweithredu lleol.

3.9P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd.

3.10 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gadw golwg ar y mater.

3.11 P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau'r Gweinidog ar gais y deisebydd i ofyn am ymchwiliad cyhoeddus; a
- thynnu'r deiseb at sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gofyn a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i edrych ar y mater.

3.12 P-04-571 Trin Anemia Niweidiol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am ymateb gan y Gweinidog; a
- gofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd ar y llythyr a dderbyniwyd eisoes gan y Gweinidog.

3.13 P-04-528 Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau'r deisebydd.

3.14 P-04-538 Cynnwys darlithwyr i sicrhau Fframwaith Arolygu Addysg Bellach sy'n addas at y diben

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.15 P-04-543 Dim cynnydd mewn ffioedd dysgu prifysgolion

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan nad oes llawer o obaith o gael deialog bellach gyda'r deisebwyr.

3.16 P-04-551 Dysgu Cymorth Cyntaf Sylfaenol Mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.17 P-04-567 Chwarae Teg i Fyfirwyr Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gyfleu sylwadau pellach y deisebydd i'r Gweinidog; ond
- gan fod y Gweinidog yn awgrymu'n glir bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y mater hwn o'r blaen ac nad yw'n barod i newid ei safbwynt, cau'r ddeiseb.

3.18 P-04-569 Rhowch y Gorau i Gynnal y Profion Cenedlaethol ar gyfer Plant Ysgolion Cynradd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.19 P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar sylwadau'r deisebydd.

3.20 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am eglurhad gan y deisebwr ynghylch a ydynt yn dymuno parhau i ddilyn y mater, o ystyried naws gadarnhaol eu gohebiaeth ddiweddar; ac
- yn dibynnu ar ymateb y deisebydd, cyflawni 'darn o waith' ar y ddeiseb.

3.21 P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.22 P-04-550 Pwerau Cynllunio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.23 P-04-557 Y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- anfon sylwadau pellach y deisebydd at y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi, er gwybodaeth; a
- chau'r ddeiseb yng ngoleuni barn y cyn Weinidog a'i bod yn ymddangos bod y materion sy'n destun pryder y deisebydd wedi cael eu hystyried gan yr Ombwdsmon.

3.24 P-04-563 Y ddarpariaeth o wasanaethau yng ngorsaf dân Pontypridd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau gan y prif ddeisebydd.

3.25 P-04-577 Adfer Cyllid i'r Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar y cynnig amlinellol a gyflwynwyd gan y deisebwyr.